# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 24 Hydref i'w hateb ar 7 Tachwedd 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau'r Llywodraeth o ran cyllido. OAQ2010(FM) **W**

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw rai o dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru nad ydynt wedi'u cyflawni? OAQ2007(FM)

**3. Eleanor Burnham AC (Gogledd Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella hawliau mynediad i ddwr yng Nghymru ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a hamdden. OAQ1985(FM)

**4. Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Gogledd. OAQ1982(FM)

**5. David Melding (Canol De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghanol De Cymru. OAQ1989(FM)

**6. Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ailsefydlu Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post. OAQ1996(FM)

**7. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. OAQ2002(FM)

**8. Janice Gregory (Ogwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. OAQ2000(FM)

**9. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol tai cymdeithasol yng Nghymru. OAQ1986(FM)

**10. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu pêl-droed yng Nghymru. OAQ1979(FM)

**11. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gofal i'r Henoed. OAQ2006(FM) **W**

**12. Karen Sinclair (De Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. OAQ1999(FM)

**13. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gydag aelodau o'r Cabinet parthed gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. OAQ2008(FM) **W**

**14. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi trafnidiaeth gymunedol. OAQ1994(FM)

**15. Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael ynghylch y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd ar 13 Hydref 2006 yn nodi y bydd ffigurau cyhoeddedig mis Medi ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal yn dangos cynnydd sylweddol arall. OAQ1998(FM)